CANLLAWIAU

# Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (diwygio) (Cymru) 2022 (WGC 003/ 2022)

Mae'r cylchlythyr hwn yn cyflwyno diwygiadau newydd i'r Rheoliadau Adeiladu a Dogfennau Cymeradwy L1, F1 ac O ar gyfer Cymru.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 24 Mai 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 24 Mai 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/rheoliadau-rheoliadau-adeiladu-etc-diwygio-cymru-2022-wgc-0032022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Cylchlythyr reoliadau adeiladu

Cyflwyniad

Cwmpas

Diwygiadau i reoliadau

Dogfennau Cymeradwy

Trefniadau Trosiannol

Rhagor o Wybodaeth

Ymholiadau

Atodiad A

Atodiad B

Atodiad C



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/rheoliadau-rheoliadau-adeiladu-etc-diwygio-cymru-2022-wgc-0032022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae'r diwygiadau ar gyfer 2022 yn cynnwys effeithlonrwydd ynni, awyru a gorgynhesu a fydd yn dod i rym ar 23/11/2022.

# Cylchlythyr reoliadau adeiladu

**Rhif y Cylchlythyr**: WGC 003/2022

**Dyddiad cyhoeddi**: 24/05/2022

**Statws**: Er gwybodaeth

**Teitl**: Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (diwygio) (Cymru) 2022

**Cyhoeddwyd gan**: Francois Samuel: Pennaeth Rheoliadau Adeiladu

**Cyfeiriwyd at**:

Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (Anfonwch ymlaen at: Swyddogion Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Anfonwch ymlaen at: Aelodau’r Senedd

Cymdeithas Arolygwyr Cymeradwy Corfforaethol

Cyngor y Diwydiant Adeiladu

Fforwm Personau Cymwys

## Crynodeb

Mae'r cylchlythyr hwn yn cyflwyno diwygiadau newydd 2022 o ran

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/rheoliadau-rheoliadau-adeiladu-etc-diwygio-cymru-2022-wgc-0032022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

effeithlonrwydd ynni, awyru a gorgynhesu i'r Rheoliadau Adeiladu a Dogfennau Cymeradwy L1, F1 ac O i Gymru.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Paul Keepins
Rheoliadau Adeiladu
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8646
E-bost: **enquiries.brconstruction@llyw.cymru**
Gwefan: **https://llyw.cymru/adeiladu-a-chynllunio**

# Cyflwyniad

Rwyf wedi cael cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru i dynnu eich sylw at Reoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2022 (O.S. 2022/564 (Cy. 130) ("y Rheoliadau Diwygio") a wnaed ar 20 Mai 2022 ac a ddaw i rym ar 23 Tachwedd 2022, yn ddarostyngedig i'r darpariaethau y cyfeirir atynt isod.

Rwyf hefyd wedi cael cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru i dynnu eich sylw at gyhoeddi Dogfen Gymeradwy F (Awyru), cyfrol 1; Dogfen Gymeradwy L (Arbed Tanwydd ac Ynni) cyfrol 1 a Dogfen Gymeradwy O (Gorgynhesu).

Yn unol ag adran 14(7) o Ddeddf Adeiladu 1984, gwnaed y Rheoliadau diwygio ar ôl ymgynghori â Phwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu.

Diben y Cylchlythyr hwn yw gwneud y canlynol:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/rheoliadau-rheoliadau-adeiladu-etc-diwygio-cymru-2022-wgc-0032022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- tynnu sylw at y diwygiadau ac esbonio'r newidiadau y maent yn eu gwneud i Reoliadau Adeiladu 2010 a Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010;
- tynnu sylw at gyhoeddi Dogfennau Cymeradwy newydd F, cyfrol 1; ac L, cyfrol 1, a Dogfen Gymeradwy newydd O;
- tynnu sylw at y darpariaethau trosiannol, sy'n gymwys i adeiladau unigol.

Nid yw'r cylchlythyr hwn yn rhoi cyngor ar ofynion technegol Rheoliadau Adeiladu 2010 gan fod Dogfennau Cymeradwy yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae **Atodiad A** i'r Cylchlythyr hwn yn nodi ar ffurf tabl yr holl newidiadau i Reoliadau Adeiladu 2010 a Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010 a wneir gan O.S. 2022/564.

# Cwmpas

Dim ond i adeiladau a gwaith adeiladu yng Nghymru y mae'r rheoliadau diwygio a Dogfennau Cymeradwy L (cyfrol 1), F (cyfrol 1) ac O yn berthnasol.

# Diwygiadau i reoliadau

Mae'r Rheoliadau Diwygio yn diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010 er mwyn gwneud y canlynol:

- darparu ar gyfer ffyrdd newydd o fesur effeithlonrwydd ynni, gan ddefnyddio metrigau perfformiad newydd;
- newid y ffordd y caiff systemau cynhyrchu trydan ar safleoedd eu rheoleiddio;

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/rheoliadau-rheoliadau-adeiladu-etc-diwygio-cymru-2022-wgc-0032022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- cyflwyno rheoliadau ar gamau lliniaru mewn perthynas â gorgynhesu;
- gwneud darpariaeth ynghylch safonau awyru pan fydd gwaith y mae Rhan L (arbed tanwydd ac ynni) yn gymwys iddo;
- gwneud newidiadau cysylltiedig i Reoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010;
- gwneud darpariaethau trosiannol;
- gwneud mân newidiadau mewn perthynas â chynlluniau hunanardystio.

## Dogfennau Cymeradwy

Mae Dogfen Gymeradwy F: awyru (argraffiad 2010 sy'n cynnwys diwygiadau 2010 a 2014) yn cael ei thynnu'n ôl yn rhannol mewn perthynas â chanllawiau ar gyfer anheddau newydd ac anheddau presennol a chaiff ei disodli gan Ddogfen Gymeradwy F, Cyfrol 1: Anheddau.

Mae Dogfennau Cymeradwy L1A: Arbed tanwydd ac ynni mewn anheddau newydd, argraffiad 2014 (yn cynnwys diwygiadau 2016); L1B: Arbed tanwydd ac ynni mewn anheddau presennol, argraffiad 2014 (yn cynnwys diwygiadau 2016) yn cael eu tynnu'n ôl. Cânt eu disodli gan Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo canllawiau statudol newydd er mwyn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â Rhan O o Atodlen 1 i Reoliadau Adeiladu 2010 fel Dogfen Gymeradwy O.

Mae **Atodiadau B** a **C** i'r Cylchlythyr hwn yn rhoi'r Hysbysiad o Gymeradwyaeth ar gyfer y Dogfennau Cymeradwy newydd a'r Hysbysiad Tynnu'n Ôl a Thynnu'n Ôl yn Rhannol ar gyfer argraffiadau blaenorol o'r Dogfennau Cymeradwy, yn ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol.

Mae'r Dogfennau Cymeradwy ar gael yn: **Rheoliadau adeiladu: dogfennau**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/rheoliadau-rheoliadau-adeiladu-etc-diwygio-cymru-2022-wgc-0032022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Trefniadau Trosiannol

Nid yw'r Rheoliadau Diwygio na'r Dogfennau Cymeradwy newydd yn gymwys mewn perthynas â gwaith adeiladu ar adeilad penodol lle mae'r gwaith adeiladu wedi cael ei ddechrau'n unol â darpariaeth o dan hysbysiad perthnasol, ar yr amod bod y gwaith adeiladu ar yr adeilad hwnnw eisoes wedi dechrau neu y caiff ei ddechrau o fewn 12 mis i'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

Mewn rhai achosion, bydd ceisiadau yn gysylltiedig â nifer o adeiladau ar safle, er enghraifft, nifer o dai. Mewn achosion o'r fath, dim ond yr adeiladau **unigol** hynny y mae gwaith wedi dechrau arnynt all fanteisio ar y darpariaethau trosiannol.

## Rhagor o Wybodaeth

**Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2022**

## Ymholiadau

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y Cylchlythyr hwn at:

Francois Samuel, Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ.

Ffôn: 03000 628232.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/rheoliadau-rheoliadau-adeiladu-etc-diwygio-cymru-2022-wgc-0032022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

E-bost: **enquiries.brconstruction@llyw.cymru**

# Atodiad A

| O.S. 2010/ 2214<br><br>Rheoliad Rhif | O.S. 2022/564<br><br>Rheoliad Rhif | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| 2(1) | 3 | Mae Rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 2(1) (dehongli) y Rheoliadau Adeiladu i gyflwyno gofyniad cyfradd ynni cynradd darged newydd a'r wybodaeth am ofyniad gynhyrchu trydan ar safleoedd i'r diffiniad o “ofynion effeithlonrwydd ynni” ac ychwanegu diffiniad o "system ar gyfer cynhyrchu trydan ar safleoedd". |
| | 4 | Mae Rheoliad 4 yn cyflwyno gofyniad lle y caiff gwaith adeiladu ei wneud mewn perthynas â Rhan L o'r Rheoliadau Adeiladu, bod yn rhaid i systemau awyru'r adeilad gydymffurfio â'r safon a nodir yn Rhan F o Atodlen 1 neu beidio â bod yn waeth na'r safon cyn ymgymryd â'r gwaith o dan Ran L. |
| 17(2A) | 5 | Tystysgrifau cwblhau. Yn ychwanegu rheoliad 26C (cyfraddau ynni cynradd targed ar gyfer adeiladau newydd) at y rhestr o ddarpariaethau perthnasol i'w bodloni cyn y gellir rhoi tystysgrif gwblhau ac yn dileu'r gair 'consumption' o is-baragraff c. |
| 25C | 6 | Gofynion sylfaenol o ran perfformiad ynni. Diwygiwyd er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i gymeradwyo'r cyfraddau ynni cynradd targed pan gaiff annedd ei chodi. |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/rheoliadau-rheoliadau-adeiladu-etc-diwygio-cymru-2022-wgc-0032022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| O.S. 2010/ 2214<br><br>Rheoliad Rhif | O.S. 2022/564<br><br>Rheoliad Rhif | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | 7 | Yn mewnosod Rheoliad 25D newydd i'r Rheoliadau Adeiladu er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i gymeradwyo cyfraddau effeithlonrwydd ynni ar gyfer anheddau newydd. |
| 26A | 8 | Adeiladau newydd: Cyfraddau ynni cynradd. Diwygiwyd er mwyn cynnwys hefyd pan gaiff annedd newydd ei chodi ac yn dileu'r gair “consumption”. |
| | 9 | Sgoriau effeithlonrwydd ynni gofynnol. Yn mewnosod Rheoliad 26C newydd i'r Rheoliadau Adeiladu i'w gwneud yn ofynnol i anheddau newydd gyflawni'r sgôr effeithlonrwydd ynni ofynnol ar gyfer yr annedd neu ragori ar y sgôr honno. |
| 27A | 10 | Cyfrifiadau cyfraddau ynni cynradd. Diwygiwyd er mwyn cynnwys pan gaiff annedd ei chodi'n unol â'r gofyniad ac yn dileu'r gair “consumption”. |
| 27C | 11 | Cyfrifiadau sgoriau effeithlonrwydd ynni: Yn mewnosod Rheoliad 27C newydd i'r Rheoliadau Adeiladu sy'n nodi'r weithdrefn i'w dilyn i gyflwyno tystiolaeth o'r sgôr effeithlonrwydd ynni i'r awdurdod lleol. |
| | 12 | Mae Rheoliad 12 yn mewnosod gofynion newydd i'r person sy'n ymgymryd â'r gwaith adeiladu roi gwybodaeth i'r perchennog am y systemau ar gyfer cynhyrchu trydan ar y safle. |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/rheoliadau-rheoliadau-adeiladu-etc-diwygio-cymru-2022-wgc-0032022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| O.S. 2010/ 2214<br><br>Rheoliad Rhif | O.S. 2022/564<br><br>Rheoliad Rhif | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | | Mae'r rheoliad hefyd yn mewnosod darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n ymgymryd â'r gwaith roi digon o wybodaeth i'r perchennog am darpariaethau a wnaed yn unol â Rhan O ar gorgynhesu. |
| 42 | 13 | Caiff Rheoliad 13 ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol cynnal profion cyfradd llif awyr ar systemau awyru mecanyddol mewn anheddau presennol lle gwneir gwaith adeiladu hysbysadwy i ddarparu neu ehangu unrhyw system adeilad sefydlog ar gyfer system awyru fecanyddol. |
| 43 | 14 | Mae Rheoliad 14 yn diweddaru enw cwmni. |
| | 15 | Mae Rheoliad 15 yn mewnosod gofyniad newydd i gadarnhau gydag awdurdod lleol bod system ar gyfer cynhyrchu trydan ar y safle wedi cael ei chomisiynu. |
| Atodlen 1 | 16 | Mae Rheoliad 16 yn diwygio Atodlen 1 o'r Rheoliadau Adeiladu i ddynodi bod yn rhaid i wasanaethau adeilad sefydlog gyrraedd safon resymol o effeithlonrwydd ynni; i gyflwyno gofynion ar gyfer gosod systemau cynhyrchu trydan ar y safle ac i fewnosod Rhan O newydd i sicrhau bod camau lliniaru mewn perthynas â gorgynhesu yn ofynnol. |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/rheoliadau-rheoliadau-adeiladu-etc-diwygio-cymru-2022-wgc-0032022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| **O.S. 2010/ 2214 Rheoliad Rhif** | **O.S. 2022/564 Rheoliad Rhif** | **Cam Gweithredu** |
|---|---|---|
| Atodlen 3 | 17 | Mae Rheoliad 17 yn diwygio Atodlen 3 i'r Rheoliadau Diweddaru i ddiweddaru enwau cwmni gweithredwyr cynlluniau personau cymwys awdurdodedig a'r meysydd gwaith a gwmpesir ganddynt. |
| | 21 | Darpariaethau Trosiannol. Yn nodi'r darpariaethau trosiannol ar gyfer y rheoliadau diwygio. |

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r holl newidiadau a wnaed gan O.S. 2022/564 (Cy. 130) i Reoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010 (O.S. 2010/2215):

| **O.S. 2010/ 2215 Rheoliad Rhif** | **O.S. 2022/564 Rheoliad Rhif** | **Cam Gweithredu** |
|---|---|---|
| 8 | 19 | Mae Rheoliad 19 yn diwygio Rheoliad 8 o Reoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010 i'w gwneud yn ofynnol i arolygwyr cymeradwy sicrhau bod gwaith adeiladu sy'n destun hysbysiad cychwynnol yn cydymffurfio â'r gofynion newydd a fewnosodwyd i Reoliadau Adeiladu 2010 gan y Rheoliadau Diwygio. |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/rheoliadau-rheoliadau-adeiladu-etc-diwygio-cymru-2022-wgc-0032022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| O.S. 2010/ 2215 Rheoliad Rhif | O.S. 2022/564 Rheoliad Rhif | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| 20 | 20 | Mae Rheoliad 20 yn diwygio Rheoliad 20 o Reoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010 er mwyn sicrhau y gellir rhoi'r ddogfennaeth y mae angen ei rhoi i Awdurdod Lleol yn unol â'r Rheoliadau Diwygio i arolygydd cymeradwy pan fydd y gwaith yn destun hysbysiad cychwynnol. |

# Atodiad B

## Deddf Adeiladu 1984

HYSBYSIAD O GYMERADWYAETH I DDIWYGIO DOGFENNAU SY'N RHOI CANLLAWIAU YMARFEROL AR OFYNION RHEOLIADAU ADEILADU 2010

Mae Gweinidogion Cymru drwy hyn yn rhoi hysbysiad o dan adran 6 o Ddeddf Adeiladu 1984 eu bod, wrth arfer y pwerau a nodir o dan adran 6, wedi cymeradwyo'r diwygiadau i'r Dogfennau Cymeradwy a restrir isod at ddibenion rhoi canllawiau ymarferol ar ofynion penodedig Rheoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd) yng Nghymru yn unig.

Daw'r gymeradwyaeth i rym ar 23 Tachwedd 2022 ac eithrio mewn perthynas â gwaith y rhoddwyd hysbysiad adeiladu neu hysbysiad cychwynnol ar ei gyfer neu gynlluniau llawn a gyflwynwyd cyn y dyddiad hwnnw ac ar yr amod bod y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/rheoliadau-rheoliadau-adeiladu-etc-diwygio-cymru-2022-wgc-0032022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gwaith wedi dechrau cyn 23 Tachwedd 2023.

| Dogfen Gymeradwy | Gofynion y Rheoliadau Adeiladu y caiff y ddogfen ei chymeradwyo mewn perthynas â nhw | Y dyddiad y daw'r diwygiad i rym |
|---|---|---|
| Dogfen Gymeradwy F, Awyru, Cyfrol 1: Anheddau – argraffiad 2022 | Rheoliadau 39, 42, 44 ac Atodlen 1: Rhan F | 23 Tachwedd 2022 |
| Dogfen Gymeradwy L, Arbed tanwydd ac ynni, Cyfrol 1: Anheddau – argraffiad 2022 | Rheoliadau 4, 6, 21, 22, 23, 24, 25, 25A, 25B, 25C, 26, 26A, 26B, 26C, 27,27A, 27B, 27C, 28, 40, 40A, 43, 44, 44ZA ac Atodlen 1, Rhan L | 23 Tachwedd 2022 |
| Dogfen Gymeradwy O, Gorgynhesu – argraffiad 2022 | Rheoliad 40B ac Atodlen 1 Rhan O | 23 Tachwedd 2022 |

# Atodiad C

## Deddf Adeiladu 1984

HYSBYSIAD O DYNNU CYMERADWYAETH I DDOGFENNAU SY'N RHOI CANLLAWIAU YMARFEROL AR OFYNION RHEOLIADAU ADEILADU 2010 YN ÔL

Mae Gweinidogion Cymru drwy hyn yn rhoi hysbysiad o dan adran 6 o Ddeddf Adeiladu 1984 eu bod, wrth arfer y pwerau a nodir o dan adran 6, wedi tynnu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/rheoliadau-rheoliadau-adeiladu-etc-diwygio-cymru-2022-wgc-0032022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cymeradwyaeth a chymeradwyaeth rannol i'r dogfennau a restrir isod at ddibenion rhoi canllawiau ymarferol ar ofynion penodedig Rheoliadau Adeiladu 2010 yn ôl.

Daw hyn yn weithredol ar 23 Tachwedd 2022. Nid oes unrhyw drefniadau trosiannol.

## Dogfen Gymeradwy

Dogfen Gymeradwy L1A – Argraffiad 2014 – Arbed tanwydd ac ynni mewn anheddau newydd a'r holl ddiwygiadau iddi.

Dogfen Gymeradwy L1A – Argraffiad 2014 – Arbed tanwydd ac ynni mewn anheddau presennol a'r holl ddiwygiadau iddi.

## Tynnu Dogfen Gymeradwy yn Ôl yn Rhannol

Adrannau 5 a 7 o'r Ddogfen Gymeradwy  F – Awyru – Argraffiad 2010 – Canllawiau a diwygiadau iddi ar gyfer anheddau newydd ac anheddau presennol.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/rheoliadau-rheoliadau-adeiladu-etc-diwygio-cymru-2022-wgc-0032022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.